# Mesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i’w Adfer (Ymgysylltiad Cymunedau â’r Trefniadau) (Cymru) 200-

## Memorandwm Esboniadol

Mae’r Memorandwm Esboniadol hwn wedi’i baratoi gan y Nerys Evans AC ac mae wedi’i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Datganiad ynghylch Cymhwysedd Deddfwriaethol

Yn fy marn i, byddai darpariaethau Mesur arfaethedig Cludo Gwastraff i’w Adfer (Ymgysylltiad Cymunedau â’r Trefniadau) (Cymru) 200-, a gyflwynwyd gennyf ar 5 Tachwedd 2008, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Nerys Evans AC
Yr Aelod sy’n gyfrifol am y Mesur arfaethedig

5 Tachwedd 2008

## Cynnwys

**Rhan 1: Cefndir a Diben y Mesur Arfaethedig**

1. Rhagymadrodd
2. Y Cefndir Deddfwriaethol
3. Diben y Ddeddfwriaeth a’r Amcanion Polisi
4. Y Cyd-destun Polisi a’r Cyd-destun Deddfwriaeth Cyfredol
5. Ymgynghori
6. Pŵer i Wneud Is-ddeddfwriaeth
7. Cymhwysiad Tiriogaethol

**Rhan 2: Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

8. Opsiynau
9. Amcangyfrif o’r costau

**Rhan 3: Nodiadau Esboniadol**

**Atodiad 1: Rhestr o’r Ymatebwyr i’r Ymarfer Ymgynghori**
**Atodiad 2: Crynodeb o’r Ymatebion i’r Ymarfer Ymgynghori**

## Rhan 1: Cefndir a Diben y Mesur Arfaethedig

### 1. Rhagymadrodd

1.1 Ar 20 Chwefror 2008, bu Nerys Evans AC, Aelod Rhanbarthol Plaid Cymru dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru, yn llwyddiannus yn y pedwerydd balot deddfwriaeth i roi hawl i Aelodau ofyn caniatâd y Cynulliad i gyflwyno Mesur arfaethedig Aelod.

1.2 Diben y Mesur yw ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol drefnu bod gwybodaeth ar gael yn gyhoeddus am y gyfran o ddeunydd ailgylchu sy'n cael ei chasglu o aelwydydd ac sy'n cael ei phrosesu mewn mannau gwahanol. Wrth wneud hynny, mae'n annog yr awdurdodau i gydymffurfio â dwy egwyddor agosrwydd a hunangynhaliaeth - sydd ill dwy yn egwyddorion pwysig ar gyfer rheoli gwastraff Cymru.

1.3 Ar 7 Mai 2008, cytunodd y Cynulliad y caniateid i'r Mesur arfaethedig gael ei gyflwyno i'w ystyried gan y Cynulliad.

1.4 Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi'i baratoi ac wedi'i osod yn unol â Rheol Sefydlog 23.18. Mae'n nodi cefndir y darpariaethau yn y Mesur arfaethedig Aelod, sef Mesur arfaethedig Cludo Gwastraff i'w Adfer (Ymgysylltiad Cymunedau â'r Trefniadau) (Cymru) ac yn esbonio hyd a lled y Mesur arfaethedig.

## 2. Y Cefndir Deddfwriaethol

2.1 Nodir y cyd-destun cyfansoddiadol i'r cynnig hwn gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006"). Mae'n darparu mecanwaith ar gyfer gwella pwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

2.2 Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn golygu y gall Aelodau mainc ôl y Cynulliad gyflwyno Mesurau os oes gan y Cynulliad gymhwysedd deddfu mewn maes polisi.

2.3 Mae'r prif bŵer sy'n galluogi'r Cynulliad i wneud y Mesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i'w Adfer (Ymgysylltiad Cymunedau â'r Trefniadau) (Cymru) 200- arfaethedig wedi'i gynnwys ym Mater 12.5 Atodlen 5 Deddf Llywodraeth Cymru 2006:

***Matter 12.5***

*Provision for and in connection with—*

*(a) the making of arrangements by relevant Welsh authorities to secure improvement in the way in which their functions are exercised,*

*(b) the making of arrangements by relevant Welsh authorities for the involvement in the exercise of their functions of people who are likely to be affected by, or interested in, the exercise of the functions, and*

*(c) the assessment and inspection of the performance of relevant Welsh authorities in exercising their functions.*

2.4 Gosodwyd Materion 12.1 i 12.5 yn Atodlen 5 gan adran 235 o *Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007*[1]. Dechreuodd y darpariaethau ar 30 Rhagfyr 2007[2].

[1] OPSI, *Local Government and Public Involvement in Health Act 2007*

[2] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Canllaw Cryno i Gymhwysedd Deddfwriaethol y Cynulliad* [cyrchwyd 17 Gorffennaf 2008]

## 3. Diben y Ddeddfwriaeth a’r Amcanion Polisi

3.1 Diben y Mesur arfaethedig yw sicrhau bod y ffordd mae awdurdodau lleol Cymru yn ymdrin â deunydd ailgylchu yn fwy eglur ac agored. Yn benodol, byddai’n ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod gwybodaeth ar gael i’r cyhoedd am y gyfran o ddeunydd ailgylchu o gartrefi sy’n cael ei brosesu y tu allan i’r Gymuned Ewropeaidd ac Ardal Masnach Rydd Ewrop (EFTA).

3.2 Nid yw’r Mesur yn gosod dyletswyddau pellach y tu hwnt i sicrhau bod yr wybodaeth hon ar gael i’r cyhoedd, cyn belled â bod yr wybodaeth yn bodoli.


3.3 Fodd bynnag, y bwriad yw, o ganlyniad i’r wybodaeth hon, y bydd trigolion yn annog awdurdodau lleol i ddefnyddio cyfleusterau ailgylchu sy’n agosach at darddle’r deunydd ailgylchu na’r rhai sydd ymhellach i ffwrdd. Disgwylir hefyd y bydd cyhoeddi gwybodaeth yn arwain at fwy o ddiddordeb, ac felly mwy o gyfranogi, mewn ailgylchu.

## 4. Y Cyd-destun Polisi a'r Cyd-destun Deddfwriaeth Cyfredol

### Y Cefndir

4.1 Mae gwastraff yn adnodd sy'n cael ei fasnachu ledled yr Undeb Ewropeaidd a thu hwnt. Mae mwy a mwy o lwythi o wastraff yn cael eu cludo dros ffiniau yn ystod y degawd diwethaf [3]: Cludwyd 15 y cant o'r holl lwythi o wastraff 'peryglus a phroblemus' o wledydd yr UE dros ffiniau yn 2003 [4], gyda 92 y cant yn cyrraedd pen y daith yng ngwledydd eraill yr UE, 5 y cant yng ngwledydd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) eraill, a 3 y cant yng ngwledydd nad ydynt yn rhan o'r OECD [5]. Mae'r llwythi gwastraff sy'n cael eu cludo dros bellter mawr hefyd yn cynyddu [6].

4.2 Yn naw mis cyntaf 2007, allforiwyd 45 y cant o'r papur gwastraff a allforiwyd o'r UE-27 (yn ôl ei werth) i Tsieina [7]. Mae oddeutu hanner o'r plastigau gwastraff a allforir o'r UE yn cael ei gludo i Hong Kong a Tsieina [8]. Dangosir graff o'r cynnydd yn y papur gwastraff a allforir i Asia yn Ffigur 1.




CEPI= Confederation of European Paper Industries.

Ffigur 1. Allforio papur gwastraff a phwysigrwydd marchnad Asia. Ffynhonnell: ETC

[3] European Topic Centre on Resource and Waste Management, *Transboundary shipments of waste in the EU: Developments 1995-2005 and possible drivers*, tud. 7, http://eea.eionet.europa.eu/Public/irc/eionet-circle/etc_waste/library?l=/working_papers/shipments290208pdf/_EN_1.0_&a=d

[4] *ibid*

[5] *ibid*, tud. 8


[6] *ibid*, tud. 84

[7] Eurostat, *External and intra-European Union trade: Monthly statistics – Rhifyn Rhif 1/2008*, tud. 110, http://epp.eurostat.ec.europa.eu/cache/ITY_OFFPUB/KS-AR-08-001/EN/KS-AR-08-001-EN.PDF

[8] European Topic Centre on Resource and Waste Management, *Transboundary shipments of waste in the EU: Developments 1995-2005 and possible drivers*, tud. 45, http://eea.eionet.europa.eu/Public/irc/eionet-circle/etc_waste/library?l=/working_papers/shipments290208pdf/_EN_1.0_&a=d

[Graph text
1000 tonnes = 1000 tunnell fetrig
Export paper from CEPI… = Allforio papur o wledydd CEPI i wledydd Ewropeaidd eraill
Export of recyclable…= Allforio papur ailgylchu o wledydd CEPI i Asia
Total export of recyclable….. = Cyfanswm y papur ailgylchu a allforiwyd o wledydd CEPI
CEPI = Cydffederasiwn Diwydiannau Papur Ewrop]

4.3 Mae'r diagram isod yn cynrychioli'r symudiad nodweddiadol o wastraff oddi wrth y defnyddiwr i'w gyrchfan terfynol. Dynodir y Ddyletswydd Gofal o dan bob cyfnod yn y broses.




*Deiliad y tŷ*[9] *Awdurdod lleol* *Cyfleuster adfer* *Brocer/ailbroseswr* *Anfonwr*

4.4 Yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r cyfryngau wedi cynnwys adroddiadau am achosion lle mae gwastraff wedi'i gludo i wledydd sy'n datblygu, lle mae'n peri problemau i iechyd ac i'r amgylchedd.[10] Fodd bynnag, oherwydd yr anawsterau sy'n gysylltiedig â gwneud dadansoddiadau defnyddiol o ddata cyfanredol, ac yn enwedig anawsterau sy'n gysylltiedig â "mesur y canlyniadau amgylcheddol ac economaidd", penderfynodd yr European Topic Centre on Resource and Waste Management (ETC) beidio â mynd ymlaen i werthuso effeithiau amgylcheddol ac economaidd cludo llwythi o wastraff dros ffiniau[11].

4.5 Mae'r ETC yn nodi bod y llwythi o wastraff a gludir yn anghyfreithlon bob blwyddyn yn cyfateb i tua 0.2 y cant o wastraff hysbysadwy (yn ôl ei bwysau), ond mae o'r farn mai dim ond rhan fach iawn o'r llwythi o wastraff a gludir yn anghyfreithlon yw'r achosion a adroddwyd, a chred fod llawer o

[9] Dyletswydd a ddisgrifir o dan Reoliadau Gwastraff (Dyletswydd Gofal o ran Gwastraff Cartref) (Cymru) 2006, SI 123(W.16), http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2006/20060123e.htm#n4
[10] European Topic Centre on Resource and Waste Management, *Transboundary shipments of waste in the EU: Developments 1995-2005 and possible drivers*, p. 7, http://eea.eionet.europa.eu/Public/irc/eionet-circle/etc_waste/library?l=/working_papers/shipments290208pdf/_EN_1.0_&a=d
[11] *ibid*, tud. 8

wastraff anghyfreithlon yn cael ei gludo[12], a bod hyn yn duedd gynyddol[13]. Roedd un o bob tri o'r achosion a adroddwyd yn ymwneud â gwastraff nad yw'n beryglus, i wledydd nad ydynt yn rhan o OECD[14]. Mae llawer o'r gwastraff rhestr ambr a gategoreiddiwyd yn 'anghyfreithlon' wedi'i gategoreiddio'n anghywir fel 'gwastraff rhestr werdd'[15]. Yn 2003, ni ellid pennu triniaeth adfer derfynol 10 y cant o gyfanswm y gwastraff hysbysadwy a allforiwyd yn fanwl gywir.[16]

4.6 Ystyrir mai'r costau llafur cymharol uchel o drin neu waredu yn yr UE yw un o'r prif resymau dros gludo llwythi o wastraff yn anghyfreithlon[17]. Fodd bynnag, mae'r ETC hefyd yn nodi[18]:

> A case of illegal transport, where 1,600 tonnes of mixed household waste was intercepted on its way from England to China indicates that the privatisation of the waste management sector might be a driver for illegal shipment of waste [VROM, 2006b]. The waste intermediaries are paid to handle the waste, but when the cost of waste disposal is increasing in England, the intermediaries are tempted to ship the waste to Asian countries, where they can get a better price/lower cost for the waste.

*Egwyddorion cyffredinol*

4.7 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn nodi bod technegau rheoli gwastraff sy'n uwch ar yr hierarchaeth gwastraff yn creu mwy o swyddi uniongyrchol, heblaw am dechnegau lleihau gwastraff o bosibl[19], er bod lleihau gwastraff yn effeithio'n anuniongyrchol ar ddiogelu swyddi drwy wneud busnes yn fwy effeithlon a chystadleuol[20]. Yn ôl dadansoddiad y Comisiwn Ewropeaidd, mae ailgylchu'n creu llawer mwy o swyddi na llosgi neu dirlenwi: 250 o swyddi am bob 10,000 tunnell o ddeunydd, o gymharu â 20 i 40 swydd yn achos llosgi a 10 ar gyfer tirlenwi[21]. Yn wir, yn 2003 roedd gan y DU y bumed gyfran uchaf yn yr UE o gyflogaeth ddiwydiannol genedlaethol ar gyfer ailgylchu, sef 0.4 y cant (16,000 o weithwyr cyflogedig)[22] . Cynyddodd cyflogaeth yn y sector

---

[12] *ibid*, tud. 11
[13] *ibid*, tud. 70
[14] *ibid*
[15] *ibid*, tud. 72
[16] *ibid*, tud. 8
[17] *ibid*, tud. 100
[18] *ibid*
[19] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Yn Gall gyda Gwastraff: Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru,* Rhan 2, tud. 165, Mehefin 2002, http://new.wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/waste_recycling/wise_about_waste_strategy?lang=en
[20] *ibid*
[21] Y Comisiwn Ewropeaidd, *Communication from the Commission to the Council, the European Parliament, the European Economic and Social Committee and the Committee of the Regions*, 21 Rhagfyr 2005, http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/site/en/com/2005/com2005_0666en01.pdf
[22] Eurostat, *European business: Facts and figures – Data 1995-2005*, 2006, tud. 252, http://epp.eurostat.ec.europa.eu/cache/ITY_OFFPUB/KS-BW-06-001/EN/KS-BW-06-001-EN.PDF

hwn yn Ewrop 4.5 y cant y flwyddyn yn ystod y cyfnod 1995-2005[23], cyfradd twf llawer uwch na sectorau diwydiannol eraill.

4.8 Mae egwyddor agosrwydd (gweler paragraff 4.30) wedi ennill ei phlwyf ym maes ymdrin â gwastraff, a gellir ei disgrifio fel 'datrys problemau'n lleol yn hytrach na'u trosglwyddo i fannau eraill neu genedlaethau'r dyfodol'[24]. Dyma un o'r egwyddorion sy'n sail i ddull Llywodraeth y Cynulliad o gynllunio polisi ar gyfer datblygu cynaliadwy[25]:

> 12.5. 3 Dylid rheoli gwastraff (neu ei waredu) mor agos ag y bo modd at ei bwynt cynhyrchu, yn unol â'r egwyddor agosrwydd. Diben hyn yw sicrhau, cyn belled ag y bo modd, nad yw gwastraff yn cael ei gludo i fannau eraill. Mae hefyd yn cydnabod y gall cludo llwythi o wastraff effeithio'n sylweddol ar yr amgylchedd. Dylid rhoi sylw dyledus i'r hierarchaeth gwastraff, egwyddor agosrwydd a hunangynhaliaeth rhanbarthol wrth benderfynu ar y Dewis Amgylcheddol Ymarferol Gorau ar gyfer y rhwydwaith o osodiadau rheoli gwastraff sy'n rhoi ateb gorau i gwrdd â'r anghenion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd.

4.9 Mae'r egwyddor agosrwydd hefyd yn un o'r 'egwyddorion allweddol' ar gyfer rheoli gwastraff yn y dyfodol yng Nghymru[26]. Mae Strategaeth Wastraff Cymru yn nodi[27]:

> Dylid adfer neu waredu gwastraff mor agos â phosibl i'r man y cafodd ei gynhyrchu er mwyn lleihau effaith amgylcheddol ei gludo ac i sicrhau bod y rhai hynny sy'n cynhyrchu'r gwastraff yn cymryd cymaint o gyfrifoldeb â phosibl am ddelio â'r gwastraff.

4.10 Mae Rheoliad (EC) Rhif 1013/2006[28] (y Rheoliad) yn datgan y dylai'r Aelod-wladwriaethau ystyried yr egwyddorion agosrwydd, blaenoriaethau ar gyfer adfer a hunan-gynhaliaeth ar lefelau'r Gymuned a lefel genedlaethol wrth gludo llwythi o wastraff i'w waredu. Mae'r Rheoliad hefyd yn gwahardd cludo llwythi o wastraff y tu allan i Ardal Masnach Rydd Ewrop (EFTA) i'w waredu. Mae'r Rheoliad wedi'i gyflwyno yn y DU fel *The Transfrontier Shipment of Waste Regulations 2007*[29]. Ymysg agweddau eraill, mae'n

---

[23] *ibid*
[24] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Polisi Cynllunio Cymru*, http://newydd.cymru.gov.uk/topics/planning/policy/ppw2002/?lang=cy
[25] *ibid*
[26] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Yn Gall gyda Gwastraff: Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru*, Rhan 1, tud. 9, Mehefin 2002, http://newydd.cymru.gov.uk/about/strategypubs/2096132/?lang+cy
[27] *ibid*, p. 13
[28] Rheoliad (EC) Rhif 1013/2006 y Senedd Ewropeaidd a'r Cyngor ar 14 Mehefin 2006 ar gludo llwythi o wastraff, http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:L:2006:190:0001:0098:EN:PDF
[29] OPSI, *The Transfrontier Shipment of Waste Regulations 2007*, http://www.opsi.gov.uk/si/si2007/uksi_20071711_en_1

disgrifio troseddau, a'r gosb bosibl o ddirwy a chyfnod o hyd at ddwy flynedd yn y carchar.

4.11 Mae Cyfarwyddeb 2006/12/EC[30] hefyd yn nodi bod yn rhaid i Aelod-wladwriaethau gymryd mesurau i sefydlu rhwydwaith integredig a digonol o osodiadau gwaredu gwastraff , fel y Gymuned yn gyffredinol yn bod yn hunangynhaliol o ran gwaredu gwastraff, a bod Aelod-wladwriaethau yn symud tuag at y nod fesul un.

4.12 Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn nodi[31]:

> It is widely recognised that where movements are not properly monitored and controlled the transfrontier movement of hazardous waste can pose a serious threat to both human health and the environment.

4.13 Y ddeddfwriaeth a ddisgrifir isod yw'r ymateb Ewropeaidd i'r her hon.

*Deddfwriaeth*

4.14 Mae Comisiynydd Ewrop ar gyfer yr Amgylchedd wedi dweud mai cludo llwythi o wastraff yn ddiogel yw un o flaenoriaethau amgylcheddol uchaf y Comisiwn[32].

4.15 Mae'r Rheoliad yn cynnwys goruchwylio a rheoli'r broses o gludo llwythi o wastraff mewn ffordd sy'n ystyried yr angen i gynnal, diogelu a gwella ansawdd yr amgylchedd. Mae'n ymgorffori darpariaethau Confensiwn Basel[33] mewn deddfwriaeth Ewropeaidd. Mae'n berthnasol wrth gludo llwythi o wastraff, o fewn ac i mewn neu allan o'r Undeb Ewropeaidd, i wastraff a gludir rhwng Aelod-wladwriaethau ond drwy un drydedd wlad neu fwy, ac i wastraff a gludir rhwng trydydd gwledydd drwy un Aelod-wladwriaeth neu fwy [34]. Mae gwastraff ymbelydrol yn cael ei eithrio o gwmpas y Rheoliad[35].

---

[30] Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd, *Cyfarwyddeb 2006/12/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 5 Ebrill 2006 ar wastraff*
http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:L:2006:114:0009:0021:EN:PDF
[31] Asiantaeth yr Amgylchedd, *The transfrontier shipment of waste: A guide to the international shipment of waste*, Chwefror 2004,
http://www.environment-agency.gov.uk/commondata/acrobat/ep235tsw_446853.pdf
[32] Comisiwn Ewropeaidd, *Environment: New EU waste shipment legislation comes into force today*, datganiad i'r wasg, 12 Gorffennaf 2007,
http://europa.eu/rapid/pressReleasesAction.do?reference=IP/07/1078
Confensiwn Basel ar Reoli Symudiadau Gwastraff Peryglus dros Ffiniau a'u Gwaredu, http://www.basel.int/
Mae rhestr lawn o'r pethau a gadarnheir yn y Confensiwn ar gael yn http://www.basel.int/ratif/convention.htm.
Nid yw'r gwledydd canlynol wedi cadarnhau'r Confensiwn: Gweriniaeth Pobl Ddemocrataidd Korea, Fiji, Gabon, Grenada, Iraq, Gweriniaeth Ddemocrataidd Pobl Lao, Myanmar, Palau, San Marino, Sao Tome a Principe, Sierra Leone, Ynysoedd Solomon, Somalia, Suriname, Tajikistan, Timor-Leste, Tonga, Tuvalu, Vanuata a Zimbabwe. Mae Afghanistan, Haiti ac Unol Daleithiau'r America wedi llofnodi'r Confensiwn ond heb roi tystiolaeth o ddulliau cadarnhau..
[34] Y Comisiwn Ewropeaidd, *Supervision and control of shipments of waste*,
http://europa.eu/scadplus/leg/en/lvb/l11022.htm
[35] Rheoliad (EC) Rhif 1013/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 14 Mehefin 2006 ar gludo llwythi o wastraff,

4.16 Nod y Rheoliad yw atgyfnerthu, symleiddio a nodi’r gweithdrefnau cyfredol ar gyfer rheoli’r broses o gludo llwythi o wastraff. Mae’r Rheoliad yn gwahardd cymysgu gwastraff wrth ei gludo mewn llwythi, sicrhau bod gwybodaeth briodol ar gael i’r cyhoedd, a’r rhwymedigaeth ar ran yr hysbyswr, yr awdurdod cymwys, y derbynnydd a’r cyfleusterau dan sylw i gadw dogfennau a gwybodaeth.

4.17 Wrth allforio gwastraff o Aelod-wladwriaeth y Gymuned Ewropeaidd, mae’n rhaid i’r awdurdod cymwys sy’n anfon y gwastraff yn y Gymuned:

- Sicrhau bod unrhyw wastraff a allforir yn cael ei reoli mewn dull amgylcheddol gadarn[36] drwy’r cyfnod o’i gludo mewn llwythi, gan gynnwys adfer neu waredu yn y drydedd wlad yr anfonir y gwastraff iddi;
- Gwahardd allforio gwastraff i drydydd gwledydd os oes ganddo reswm i gredu na fydd y gwastraff yn cael ei reoli’n unol â gofynion rheolaeth amgylcheddol gadarn.

4.18 Mae Atodiad VIII i'r Rheoliad yn darparu canllawiau ar gyfer rheoli gwastraff a allforir yn amgylcheddol gadarn, er mai dim ond i ffrydiau gwastraff penodol y mae’r rhain yn berthnasol, gan gynnwys y rhai hynny sy’n cynnwys gwastraff cemegol (fel PCB), llongau, batris asid plwm, metelau, a chyfrifiaduron personol.

4.19 Mae’n rhaid i Aelod-wladwriaethau wneud darpariaethau ar gyfer trefnu gwiriadau drwy’r holl broses o gludo llwythi o wastraff ac adfer gwastraff/gwaredu gwastraff.

*Adfer gwastraff*

4.20 Mae gwastraff ar y rhestr ‘gwyrdd’ sydd i fod i gael ei adfer yn gorfod cydymffurfio â gofynion gwybodaeth gyffredinol Erthygl 18 y Rheoliad. Mae’r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i’r sawl sy’n cael gwared ar y gwastraff gwblhau dogfen wybodaeth y mae’n rhaid i’r derbynnydd gwastraff hefyd ei llofnodi. Gall y ddogfen fod mewn fformat electronig gyda llofnod digidol os yw hyn yn dderbyniol i’r awdurdodau cymwys dan sylw.

---

http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:L:2006:190:0001:0098:EN:PDF

[36] Diffinnir rheolaeth amgylcheddol gadarn o dan y Rheoliad fel cymryd pob cam ymarferol i sicrhau bod gwastraff yn cael ei reoli mewn ffordd a fydd yn diogelu iechyd pobl a’r amgylchedd yn erbyn effeithiau niweidiol a allai ddeillio o’r fath wastraff

4.21 Mae gwastraff o'r fath yn cynnwys gwastraff llysiau, gwastraff papur, gwastraff tecstilau, gwastraff gwydr, gwastraff plastig solid, sborion electronig sy'n addas i'w hadfer a sborion metel.

4.22 Os pennir bod gwastraff y bwriedir ei gludo mewn llwythi i'w adfer am gael ei waredu, gall yr awdurdodau cymwys sy'n gyfrifol am gael gwared a derbyn y gwastraff wrthwynebu ei gludo mewn llwythi. Gellir gwrthwynebu hefyd os:

> The ratio of the recoverable and non-recoverable waste, the estimated value of the materials to be finally recovered or the cost of the recovery and the cost of the disposal of the non-recoverable fraction do not justify the recovery, having regard to economic and/or environmental considerations.

4.23 Mae'n ofynnol i Asiantaeth yr Amgylchedd ystyried ffactorau amgylcheddol ac economaidd wrth benderfynu a yw gwastraff mewn gwirionedd yn cael ei gludo mewn llwythi ar draws ffiniau i gael ei adfer[37].

*Gwastraff rhestr ambr*

4.24 Mae gwastraff ar y rhestr 'ambr', gan gynnwys pob gwastraff a fydd yn cael ei waredu, a gwastraff peryglus a lled-beryglus y bwriedir ei adfer, yn gorfod cydymffurfio â'r weithdrefn 'hysbysu a chydsyniad ymlaen llaw'. Mae gwastraff rhestr ambr yn cynnwys gwastraff trefol a gwastraff y cartref.

*Gwahardd allforio*

4.25 Gwaherddir allforio gwastraff y bwriedir ei waredu i drydydd gwledydd, ar wahân i wledydd EFTA sydd wedi arwyddo Confensiwn Basel. Gwaherddir cludo cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff mewn llwythi i wledydd nad ydynt yn rhan o'r OECD[38]. Mae cerbydau diwedd oes (hen geir), gan gynnwys y rhai hynny lle mae'r hylif wedi'i ddraenio, yn destun gwaharddiad ar allforio. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn ystyried y gwaharddiadau hyn fel ffordd o atal llawer o wastraff trydanol ac electronig a cherbydau diwedd oes rhag cael eu cludo mewn llwythi a'u dympio mewn gwledydd sy'n datblygu[39].

---

[37] Asiantaeth yr Amgylchedd, *The transfrontier shipment of waste: A guide to the international shipment of waste*, Chwefror 2004,
http://www.environment-agency.gov.uk/commondata/acrobat/ep235tsw_446853.pdf

[38] European Topic Centre on Resource and Waste Management, *Transboundary shipments of waste in the EU: Developments 1995-2005 and possible drivers*, tud. 10,
http://eea.eionet.europa.eu/Public/irc/eionet-circle/etc_waste/library?l=/working_papers/shipments290208pdf/_EN_1.0_&a=d

[39] Y Comisiwn Ewropeaidd, *Environment: New EU waste shipment legislation comes into force today*, datganiad i'r wasg, 12 Gorffennaf 2007,
http://europa.eu/rapid/pressReleasesAction.do?reference=IP/07/1078

4.26 Mae'r Rheoliad yn galluogi i wrthwynebiad gael ei wneud i gludo llwythi o wastraff ar gyfer ei adfer pe bai adfer o'r fath am gael ei wneud mewn cyfleuster sydd â safonau trin is ar gyfer y gwastraff penodol na safonau'r wlad sy'n gwaredu.

4.27 Mae'n rhaid i Asiantaeth yr Amgylchedd wahardd allforio gwastraff i wledydd nad ydynt yn rhan o'r OECD os oes ganddi reswm i gredu na fydd y gwastraff yn cael ei reoli mewn dull amgylcheddol gadarn[40], ac yn ddelfrydol, dylai gwaredwr y gwastraff allu dangos i Asiantaeth yr Amgylchedd bod y cyfleuster sy'n derbyn[41]:

> Is operated according to human health and environment protection standards that are broadly equivalent to the standards within the UK.

4.28 Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn datgan y bydd ei hymdrech orfodi yn canolbwyntio ar y canlynol[42]:

- Allforio gwastraff yr honnir yn gamarweiniol ei fod yn 'wastraff gwyrdd' neu 'ddim yn wastraff'
- Allforio gwastraff i wledydd nad ydynt am ei dderbyn
- Unrhyw un sy'n mewnforio neu allforio gwastraff hysbysadwy (yn enwedig gwastraff peryglus) heb hysbysu neu gael cydsyniad ymlaen llaw

*Cynllun y DU ar gyfer Cludo Llwythi o Wastraff*

4.29 Mae Cynllun y DU ar gyfer Cludo Llwythi o Wastraff[43] (y Cynllun) yn nodi polisi Llywodraeth y DU ar gludo llwythi o wastraff er mwyn ei waredu i ac o'r DU. Daeth i rym ar 9 Awst 2007, gan gymryd lle ei ragflaenydd, sef Cynllun Rheoli'r DU ar gyfer Allforion a Mewnforion Gwastraff. Gwaherddir cludo llwythi o wastraff nad ydynt yn cydymffurfio â'r cynllun rhag dod i mewn i neu adael y DU. Yn y bôn, gwaherddir cludo llwythi o unrhyw wastraff i ac o'r DU ar gyfer ei waredu, heblaw am ambell i eithriad (fel treialu dulliau newydd o waredu gwastraff, ac mewn achosion o argyfwng). Mae'r Cynllun hefyd yn amlygu dau brif nod polisi Llywodraeth y DU sy'n ymwneud â chludo llwythi o wastraff i'w adfer:

---

[40] Asiantaeth yr Amgylchedd, *Safer waste cleaner world: Exporting recyclable waste for recovery in non-OECD countries*, Mehefin 2007, http://publications.environment-agency.gov.uk/pdf/GEHO0607BMXG-e-e.pdf
[41] *ibid*
[42] Asiantaeth yr Amgylchedd, *The Environment Agency's priorities for enforcing the TFS Regulations*, Gorffennaf 2007, http://www.environment-agency.gov.uk/commondata/acrobat/enforcement_1818563.pdf
[43] DEFRA, *UK Plan for Shipments of Waste*, 2007, http://www.ehsni.gov.uk/waste-shipments.pdf

- Annog masnach ryngwladol mewn gwastraff i'w adfer lle mae hyn o fudd amgylcheddol o ran cynyddu'r lefelau adfer yn genedlaethol, yn y Gymuned ac yn fyd-eang
- Atal niwed i iechyd pobl neu'r amgylchedd o ganlyniad i'r fasnach ryngwladol hon

**Y Polisi Cyfredol**

4.30 Mae strategaeth wastraff Llywodraeth y Cynulliad, *Yn Gall Gyda Gwastraff*, yn rhestru'r egwyddor agosrwydd a hunangynhaliaeth fel rhai o'r 'egwyddorion allweddol' sydd wrth wraidd y strategaeth:

> **Agosrwydd**
> 2.18 Dylai gwastraff gael ei adfer neu ei waredu mor agos â phosibl at ble cafodd ei gynhyrchu er mwyn cwtogi ar effaith amgylcheddol ei gludo ac i sicrhau bod y rhai hynny sy'n cynhyrchu'r gwastraff yn cymryd cyfrifoldeb cyn belled ag sy'n bosibl am ymdrin ag ef.
>
> **Hunan-gynhaliaeth**
> 2.19 Yn unol â'r egwyddor ynglŷn ag agosrwydd, dylai'r broses gynllunio gwastraff sicrhau bod digon o gyfle yn nhermau cyfleusterau rheoli gwastraff i reoli'r gwastraff a gynhyrchir mewn unrhyw un maes a roddir. Ar gyfer rhai mathau o wastraff gallai hyn fod o fewn ardal un awdurdod lleol, ar gyfer eraill gallai fod o fewn rhanbarth o Gymru, o fewn Cymru gyfan neu'r DU yn ehangach.[44]

4.31 Mae'r egwyddor agosrwydd hefyd yn un o'r egwyddorion sy'n sail i ddull Llywodraeth y Cynulliad o gynllunio polisi ar gyfer datblygu cynaliadwy:

> 12.5.3 Dylid rheoli gwastraff (neu ei waredu) mor agos ag y bo modd at ei bwynt cynhyrchu, yn unol â'r egwyddor agosrwydd. Diben hyn yw sicrhau, cyn belled ag y bo modd, nad yw gwastraff yn cael ei gludo i fannau eraill. Mae hefyd yn cydnabod y gall cludo gwastraff effeithio'n sylweddol ar yr amgylchedd. Dylid rhoi sylw dyledus i'r hierarchaeth gwastraff, yr egwyddor agosrwydd a hunan-gynhaliaeth rhanbarthol wrth benderfynu ar y Dewis Amgylcheddol Ymarferol Gorau ar gyfer y rhwydwaith o osodiadau rheoli gwastraff sy'n rhoi ateb gorau i gwrdd â'r anghenion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd.[45]

[44] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Yn Gall gyda Gwastraff: Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru*, tud. 13
[45] Llywodraeth Cynulliad Cymru *Polisi Cynllunio Cymru*, http://newydd.cymru.gov.uk/topics/planning/policy/ppw2002/?lang=cy

*Polisi perthnasol yn Lloegr a'r Alban*

4.32 Nod *Planning Policy Statement 10: Planning for Sustainable Waste Management*[46] Lloegr yw darparu fframwaith lle mae cymunedau yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gwastraff eu hunain. Un o brif nodau *Waste Strategy for England*[47] yw lleihau gwastraff drwy wneud cynhyrchion gyda llai o adnoddau naturiol, gan dorri'r cysylltiad rhwng twf economaidd a thwf gwastraff. Mae'r strategaeth yn cydnabod:

> A key to more efficient recovery of materials and energy is the greater segregation and sorting of waste at (or close to) its source by households and businesses. This requires planning for and investment in collection, sorting, reprocessing and treatment facilities by local authorities, businesses and the third sector[48].

4.33 Mae'r strategaeth hefyd yn nodi:

> We also expect waste producers, particularly local authorities, to ensure that they know where their waste is going and that its onward movement is fully compliant with the controls[49].

4.34 Nod *National Waste Plan*[50] yr Alban yw dilyn yr egwyddor hunan-gynhaliaeth ac agosrwydd drwy ymdrin â gwastraff mor agos i'w darddle â phosibl ac osgoi ei allforio i wledydd eraill. Mae'r cynllun yn cyfeirio at y ffaith nad hyn yw'r ateb gorau bob tro ac mae'n annhebygol y gellir ymdrin â'r holl wastraff yn yr Alban.

> Scotland also aims to follow the proximity principle as far as possible at area waste planning level, although there may be clear benefits from joint infrastructure solutions between areas[51].

4.35 Ar 28 Gorffennaf 2008, cyhoeddodd Senedd yr Alban ymgynghoriad[52] ar ddeddfwriaeth sylfaenol i gyflawni 'Zero Waste Scotland'. Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys mesurau arfaethedig:

- i hybu ailgylchu ymhellach drwy roi'r pŵer i Senedd yr Alban wneud rheoliadau a fyddai'n rhoi dyletswyddau ar gyrff sector cyhoeddus a

---

[46] Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol *Planning Policy Statement 10: Planning for Sustainable Waste Management*, 2005 http://www.communities.gov.uk/documents/planningandbuilding/pdf/147411.pdf
[47] Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, *Waste Strategy for England,* 2007 http://www.defra.gov.uk/environment/waste/strategy/strategy07/pdf/waste07-strategy.pdf
[48] Ibid. p.14
[49] Ibid. p. 44
[50] Scottish Environmental Protection Agency *The National Waste Plan for Scotland,* 2003 http://www.sepa.org.uk/nws/guidance/nwp.htm
[51] Ibid. p.20
[52] Senedd yr Alban, *Consultation Paper on Potential Legislative Measures to implement Zero Waste*, July 2008 http://www.scotland.gov.uk/Publications/2008/07/24155248/0

busnesau i ddarparu cyfleusterau ailgylchu ar gyfer cwsmeriaid, staff a, lle'n briodol, y cyhoedd.

- i hybu ailgylchu drwy feddiannu pwerau i alluogi Senedd yr Alban i roi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus a busnesau i nodi canran ofynnol o ddeunyddiau wedi'u gwneud o ddeunydd ailgylchu mewn contractau caffael.

- gwaith cynllunio a llunio polisi mwy effeithiol o ran gwastraff masnachol a diwydiannol drwy feddiannu pwerau i wneud rheoliadau a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau anfon ffurflenni data gwastraff i SEPA.

4.36 Mae Polisi Cynllunio'r Alban, *SPP 10: Planning for Waste Management*[53] hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd yr egwyddor agosrwydd a'r angen i ymdrin â gwastraff mor agos â phosibl i ble y cafodd ei gynhyrchu i osgoi effeithiau amgylcheddol niweidiol sy'n gysylltiedig â chludiant diangen. Yn ôl SPP10:

> Waste should be handled as close as possible to source. It follows that towns and cities will be the best locations for new waste transfer, separation and handling installations[54].

[53] Senedd yr Alban, *Scottish Planning Policy, SPP 10: Planning for Waste Management,* 2007 http://www.scotland.gov.uk/Publications/2007/08/28161910/0
[54] Ibid. p.6

## 5. Ymgynghori

5.1 Cyhoeddwyd y Mesur arfaethedig at ddibenion ymgynghori ym mis Awst 2008, am gyfnod o chwe wythnos. Daeth 10 ymateb i law. O’r rhain, roedd pedwar o blaid y Mesur arfaethedig yn fras ac roedd chwech yn ei wrthwynebu, gan ddadlau yn bennaf y gallai sylw negyddol yn y cyfryngau ynghylch camreoli gwastraff yr arfaethid ei allforio leihau’r niferoedd a fyddai’n cymryd rhan mewn ailgylchu a bod costau ychwanegol yn debyg o gael eu hysgwyddo o ganlyniad i’r Mesur.

5.2 Mae rhestr o’r ymatebwyr i’w gweld yn **Atodiad 1.** Mae crynodeb o’r ymatebion i’r ymarfer ymgynghori wedi’i ddarparu yn **Atodiad 2**.

5.3 Nodir bod rhai o’r rhai yr ymgynghorwyd â nhw o’r farn y dylai darpariaethau’r Mesur arfaethedig gynnwys gwastraff heblaw gwastraff trefol, ond ni fu’n bosibl cynnwys hwnnw gan y byddai hynny’n mynd â’r Mesur y tu hwnt i gymhwysedd deddfwriaethol presennol y Cynulliad. Er hynny, yng ngoleuni’r ymarfer ymgynghori mae’r Mesur arfaethedig wedi’i ddiwygio ac mae’r prif newidiadau fel a ganlyn:

### Adran 1

Yn yr adran hon, mae adran 55A wedi’i rhannu erbyn hyn yn dair (55A, 55B a 55C) er mwyn helpu eglurder a helpu i ddeall y Mesur arfaethedig.

- Mae adran 55A yn darparu ar gyfer paratoi datganiadau mewn perthynas â gwastraff i’w adfer a gludir y tu allan i’r Gymuned Ewropeaidd ac EFTA
- Mae adran 55B yn darparu ar gyfer cyhoeddi’r datganiadau y gofynnir amdanyn nhw o dan adran 55A.
- Mae adran 55C yn darparu ar gyfer darpariaethau cyffredinol mewn perthynas â datganiadau.

Mae tair is-adran newydd wedi'u hychwanegu at y Mesur arfaethedig. Mae’r rhain wedi’u cynnwys yn adran 55A.

*Adran 55A*

- Mae’r adran hon wedi’i hailenwi i egluro ei bod yn cyfeirio at baratoi datganiadau.

- Mae adran 55A(5) yn ei gwneud yn ofynnol erbyn hyn i'r datganiad a ddarperir gan yr awdurdodau lleol ddod o dan is-adrannau (8) a (9)

- Adran 55A(8) - mae hon yn is-adran newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol ddarparu dim ond yr wybodaeth sydd ganddyn nhw am y materion a bennir yn is-adran (5). Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i sicrhau'r wybodaeth hon.

- Adran 55A(9) - mae hon yn is-adran newydd sy'n darparu, os na all yr awdurdodau lleol gynnwys gwybodaeth y gofynnir amdani gan is-adran 5 mewn datganiad, fod rhaid iddyn nhw ddweud hynny a nodi'r camau y maen nhw wedi'u cymryd i sicrhau'r wybodaeth honno.

- Adran 55A(10) - mae hon yn is-adran newydd sy'n gosod gofyniad ar yr awdurdodau lleol pan fyddan nhw'n gwneud trefniadau gyda thrydydd partïon i werthu neu i gael gwared fel arall ar wastraff i'w adfer. Yn yr achosion hyn, rhaid i'r awdurdodau lleol roi sylw i'r ffaith ei bod yn ddymunol i drefniadau a wneir gyda thrydydd partïon roi'r wybodaeth y gofynnir amdani yn is-adran (5) i'r awdurdodau lleol.

## 6. Pŵer i wneud Is-ddeddfwriaeth

6.1 Mae adran 1 o'r Mesur arfaethedig yn mewnosod adrannau 55A, 55B a 55C newydd yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

6.2 Mae'r adran 55A(3) newid yn diffinio'r termau "waste destined for recovery", "recovery operation" a "the Waste Framework Directive".

6.3 Mae'r adran 55C(2) newydd yn rhoi i Weinidogion Cymru y pŵer i ddiwygio, dwy orchymyn, y diffiniadau a nodir yn adran 55A(3). Mae hyn yn briodol am ei fod yn osgoi'r angen i gyflwyno Mesur diwygio i ymdrin ag unrhyw ddiwygiadau i'r diffiniadau yn y dyfodol. Mae'r pŵer i wneud gorchymyn o dan adran 55C(2) yn arferadwy drwy offeryn statudol (adran 55C(3)). O dan adran 55C(4) ni chaniateir i orchymyn o dan adran 55C(2) gael ei wneud oni bai bod drafft wedi'i gyflwyno yn gyntaf gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi'i gymeradwyo ganddo (y weithdrefn gadarnhaol). Dyma'r unig bŵer i wneud is-ddeddfwriaeth sydd wedi'i gynnwys yn y Mesur arfaethedig.

## 7. Cymhwysiad Tiriogaethol

7.1 Bydd y Mesur arfaethedig hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru. Bydd yn rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru ac i awdurdodau lleol yng Nghymru.

## Rhan 2: Asesiad Effaith Rheoleiddiol

### 8. Yr Opsiynau

8.1 Mae yna gorff o dystiolaeth sy’n awgrymu bod prosesu gwastraff mewn rhai gwledydd sy’n datblygu yn beryglus i iechyd gweithwyr a phobl mewn cymunedau lleol, a bod plant yn aml yn cael eu cyflogi i brosesu gwastraff. Mae’r amodau peryglus hyn yn gysylltiedig â phrosesu gwastraff cyfreithlon a phrosesu anghyfreithlon.

8.2 O ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae yna gyfle yng Nghymru i ddefnyddio pwerau deddfu newydd y Cynulliad Cenedlaethol i osod dyletswydd ar awdurdodau lleol Cymru i drefnu bod gwybodaeth ar gael yn gyhoeddus am y gyfran o ddeunydd ailgylchu sy’n cael ei chasglu o aelwydydd ac sy’n cael ei phrosesu y tu allan i’r Gymuned Ewropeaidd ac EFTA.

8.3 Y bwriad yw y bydd hyn yn arwain at fwy o ymgysylltu o du trigolion ym maes polisi gwastraff yn gyffredinol a chyrchnodau deunydd ailgylchu yn benodol. O ganlyniad i’r cynnydd hwn mewn ymgysylltu, bwriedir i drigolion annog yr awdurdodau lleol i ddefnyddio cyfleusterau ailgylchu sy’n nes at ffynhonnell y deunydd ailgylchu, lle mae defnyddio cyfleusterau o’r fath yn fuddiol i’r amgylchedd. Bydd cyhoeddi’r wybodaeth hon felly yn cynyddu’r diddordeb a’r cyfranogi mewn ailgylchu.

8.3 Yr opsiynau ar hyn o bryd yw:

**Opsiwn 1**: Gwneud dim

**Opsiwn 2**: Dibynnu ar wneud cytundeb gwirfoddol gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru

**Opsiwn 3**: Cyflwyno Mesur arfaethedig.

### Opsiwn 1: Gwneud dim

8.4 Nid y Mesur arfaethedig hwn yw’r unig opsiwn wrth ystyried sut i wneud yr wybodaeth am gyrchfan deunyddiau ailgylchu a gesglir o gartrefi yn fwy eglur.

8.5 Yr opsiwn cyntaf yw gwneud dim. Yn y dull ‘busnes fel arfer’ hwn, bydd y cyhoedd yng Nghymru yn parhau’n anwybodus i bob pwrpas am gyrchfan eu deunydd ailgylchu.

**Opsiwn 2: Dibynnu ar wneud cytundeb gwirfoddol gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru**

8.6 Yr ail opsiwn yw dod i gytundeb gwirfoddol gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru er mwyn i bob awdurdod sicrhau bod yr wybodaeth ar gael i'w drigolion.

8.7 Anfantais y dull hwn yw y gall awdurdodau fod yn amharod i gyhoeddi gwybodaeth o'r fath os ydynt yn credu ei bod yn sensitif yn wleidyddol. Mae posibilrwydd hefyd y gallai gwybodaeth am flwyddyn benodol beidio â chael ei chyhoeddi pe bai marchnadoedd newidiol yn arwain at allforio cyfanswm mwy na'r cyffredin. Hefyd, gallai sicrhau bod pob un o'r 22 awdurdod lleol yn adrodd gwybodaeth debyg fod yn anodd.

**Opsiwn 3: Cyflwyno Mesur arfaethedig**

8.8 Y trydydd opsiwn, fel y'i cynigir yn y Mesur hwn, yw'r unig opsiwn a fyddai'n sicrhau gofyniad adrodd cyfartal ar bob awdurdod lleol na ellid ei osgoi er mantais wleidyddol.

## 9. Amcangyfrif o'r Costau

### Opsiynau 1 a 2

9.1 Costau Opsiwn 1 (gwneud dim) yw dim.

9.2 Mae costau Opsiwn 2 (cytundeb gwirfoddol) yn ymwneud â'r amser a dreulir gan staff Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymdrin ar wahân â staff o'r 22 o awdurdodau lleol. A bwrw bod modd gwneud cytundeb o'r fath mewn cyfanswm o ddau ddiwrnod gwaith i bob awdurdod, mae hynny'n gyfystyr â 44 diwrnod o waith i'r awdurdodau lleol a 44 diwrnod o waith i Lywodraeth Cynulliad Cymru, neu gyfanswm o 88 diwrnod o waith. O'i gostio yn ôl yr un gyfradd ag y mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn credu ei bod yn briodol ar gyfer swyddogion (gweler isod), byddai cyfanswm y gost amser tua £14,000.[55]

### Opsiwn 3

9.3 Awdurdodau lleol yng Nghymru fydd yn gyfrifol am fwy neu lai'r holl gostau.

9.4 Fel rhan o'r ymarfer ymgynghori, gofynnwyd i'r ymatebwyr amcangyfrif effaith ariannol debygol y Mesur arfaethedig. Dim ond un ymatebydd - sef CLlLC - a fesurodd amcangyfrif o'r costau a allai gael eu hysgwyddo o gyflwyno'r Mesur. Gan gyfrifo ar gyfer cyflogi 1 swyddog i weithio ar y polisi hwn yn unig ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru, amcangyfrifwyd y byddai'r gost yn £700,000.

9.5 Mae amcangyfrif CLlLC, sydd wedi'i seilio ar gyfraniad amser-llawn un aelod o staff ym mhob awdurdod lleol i ateb gofynion gweinyddol y Mesur arfaethedig, yn amheus ac ni ragwelir y byddai angen un aelod o staff amser-llawn ym mhob awdurdod lleol i wneud y gwaith hwn. Yn benodol, am fod hyn yn un o'r gofynion mewn adroddiadau blynyddol, disgwylir i'r gwaith gael ei grynhoi ar un adeg o'r flwyddyn, gyda diweddariadau misol oddi wrth y proseswyr. Yn ychwanegol at hyn, nododd sawl un o ymatebwyr yr ymarfer ymgynghori fod prosesau ar gael eisoes gan ddefnyddio Waste Dataflow i gasglu gwybodaeth sy'n gysylltiedig â chasglu gwastraff ac ailgylchu, ac y gallai gofynion y Mesur ynglŷn ag adroddiadau gael eu cymhathu yn y gweithdrefnau sydd eisoes ar gael.

9.6 Gallai'r broses weithredu ddilyn yr enghraifft ganlynol:

[55] (88/200 (dyddiau gwaith bob blwyddyn waith)) * (700,000/22 (cost y swyddog i bob awdurdod)) = 14,000

i. Yr awdurdod lleol yn casglu'r wybodaeth angenrheidiol gan yr holl broseswyr y mae'n eu defnyddio ar gyfer deunydd ailgylchu o gartrefi.
ii. Yr awdurdod lleol yn cyhoeddi'r wybodaeth ofynnol.
iii. Ailadrodd camau 1 a 2 bob blwyddyn.

9.7 Rhagdybir y gellir dilyn yr un gweithdrefnau bob blwyddyn ar ôl cysylltu â'r proseswyr am y tro cyntaf.

9.8 Byddai costau'n codi hefyd ar gyfer y cyrff a fyddai'n darparu gwybodaeth i'r awdurdodau lleol, ond disgwylid i'r costau fod yn fach iawn wrth i'r prosesau gael eu normaleiddio.

## Rhan 3: Nodiadau Esboniadol

### Adran 1 – Diwygio Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (p.43)

1. Mae adran 1 yn diwygio Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ("Deddf 1990") drwy fewnosod adrannau 55A, 55B a 55C newydd.

2. Mae is-adran 55A(2) yn gosod dyletswydd ar awdurdodau casglu gwastraff ac awdurdodau gwaredu gwastraff yng Nghymru (a ddiffinnir yn adran 30(3)(bb) a (2)(f) yn y drefn honno o Ddeddf 1990 fel cynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol) sy'n gwerthu neu sydd fel arall yn gwaredu gwastraff yr arfaethir ei adfer i baratoi, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, ddatganiad sy'n cynnwys yr wybodaeth a ragnodir gan is-adran (5) ac is-adran 55B(3).

3. Mae is-adran (3) yn nodi diffiniadau perthnasol.

- ystyr "gwastraff yr arfaethir ei adfer" ("waste destined for recovery") yw gwastraff y mae'r awdurdod yn bwriadu iddo fynd drwy weithrediad adfer;

- ystyr "gweithrediad adfer" ("recovery operation") yw gweithrediad y darperir ar ei gyfer yn Atodiad IIB o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff, sef:
  - **R 1** Ei ddefnyddio'n bennaf fel tanwydd neu gyfrwng arall i gynhyrchu ynni
  - **R 2** Adennill/atffurfio toddyddion
  - **R 3** Ailgylchu/adennill sylweddau organig nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio fel toddyddion (gan gynnwys compostio a phrosesau trawsffurfio biolegol eraill)
  - **R 4** Ailgylchu/adennill metelau a chyfansoddion metel
  - **R 5** Ailgylchu/adennill cyfansoddion anorganig eraill
  - **R 6** Atffurfio asidau neu fasau
  - **R 7** Adfer cydrannau sy'n cael eu defnyddio i leihau llygredd
  - **R 8** Adfer cydrannau o gatalyddion
  - **R 9** Ail-buro olew neu ffyrdd eraill o ailddefnyddio olew
  - **R 10** Triniaethau tir sy'n arwain at fantais i amaethyddiaeth neu welliant ecolegol
  - **R 11** Defnyddio gwastraffoedd a geir o unrhyw o'r gweithrediadau sydd wedi'u rhifo o R 1 i R 10
  - **R 12** Cyfnewid gwastraffoedd i'w cyflwyno i unrhyw un o'r gweithrediadau sydd wedi'u rhifo o R 1 i R 11
  - **R 13** Storio gwastraffoedd wrth aros am y gweithrediadau sydd wedi'u rhifo R 1 i R 12 (heb gynnwys storio dros dro, wrth aros i gael ei gasglu, ar y safle lle y mae'n cael ei gynhyrchu).

- Ystyr “Cyfarwyddeb Rhwydwaith Gwastraff” (“Waste Framework Directive”) yw Cyfarwyddeb 2006/12/EC Senedd Ewrop a’r Cyngor dyddiedig 5 Ebrill 2006 ynghylch gwastraff.

4. O dan is-adran (4) mae’r ddyletswydd i baratoi’r datganiad yn gymwys os bydd unrhyw ran o’r gwastraff y mae’r awdurdod yn ei werthu neu’n ei waredu arno mewn modd arall, yn ystod y flwyddyn ariannol o dan sylw ac yr arfaethir ei adfer yn cael ei gludo y tu allan i’r Gymuned Ewropeaidd ac EFTA.

5 Mae is-adran (5) yn darparu bod rhaid i’r datganiad gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- Cyfanswm y gwastraff a gludwyd (i’r dunnell agosaf neu, os amcangyfrif yw’r swm, mai amcangyfrif ydyw ac mae’n rhaid nodi’r dull a ddefnyddiwyd i amcangyfrif y swm - is-adrannau (6) a (7));

- Faint o’r gwastraff a gludwyd a aeth drwy weithrediad adfer yn y pen draw;

- Natur y gweithrediad neu’r gweithrediadau

- Faint o’r gwastraff a gludwyd nad aeth drwy weithrediad adfer yn y pen draw

- Ym mha fodd y cafwyd gwared ar y gwastraff

- Mewn perthynas â phob swm o wastraff a aeth drwy weithrediad adfer neu y cafwyd gwared arno mewn modd arall, y lleoliad y cafwyd y gweithrediad neu y cafwyd gwared ar y gwastraff.

6. Mae is-adran (8) yn ddarostyngedig i ddarpariaethau is-adrannau (8) a (9).

7. Mae is-adran (8) yn darparu mai’r wybodaeth sydd i’w chynnwys mewn datganiad a baratoir yn unol ag is-adran (5) yw’r wybodaeth honno sydd gan yr awdurdod, ond wrth baratoi datganiad mae’n rhaid i awdurdod gymryd camau rhesymol i sicrhau gwybodaeth am y materion hynny.

8. Os na all awdurdod gynnwys mewn datganiad wybodaeth am unrhyw fater a bennir yn is-adran (5) am nad yw’r wybodaeth ganddo, yna o dan is-adran (9) mae’n rhaid iddo ddatgan hyn yn y datganiad ac mae’n rhaid hefyd i’r datganiad ddatgan y camau y mae’r awdurdod wedi’u cymryd i sicrhau gwybodaeth am y mater hwnnw.

9. Mae adran 55A(10) yn ei gwneud yn ofynnol i’r awdurdodau, wrth wneud trefniadau i werthu neu i waredu fel arall gwastraff yr arfaethir ei werthu, roi sylw i’r ffaith ei bod yn ddymunol cynnwys yn y trefniadau hynny ddarpariaeth ar gyfer sicrhau bod yr awdurdod yn cael gwybodaeth a fydd yn ei alluogi i gynnwys yn y datganiad y gofynnir amdano o dan is-adran (2) wybodaeth lawn a manwl-gywir am yr holl faterion penodedig.

10. Mae adran 55B(1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod gyhoeddi'r datganiad ar ei wefan. O dan is-adran (2), rhaid dechrau cyhoeddi'r datganiad o fewn 6 mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'n cyfeirio ati a pharhau am 6 mis neu tan ddiwedd y flwyddyn ariannol, p'un bynnag yw'r olaf.

11. O dan adran 55C(3), rhaid i'r datganiad gynnwys gwahoddiad i'r cyhoedd gyflwyno sylwadau mewn ysgrifen i'r awdurdod ynghylch pa mor briodol, o roi sylw i egwyddor agosrwydd, yw'r trefniadau a wnaed gan yr awdurdod ar gyfer peri neu ganiatáu i wastraff yr arfaethir ei adfer gael ei gludo y tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd neu EFTA.

12. Mae adran 55B(4) yn egluro "egwyddor agosrwydd": dylid cael gwared ar wastraff mewn un o'r gosodiadau priodol agosaf.

13. Mae adran 55B(5) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod roi sylw i sylwadau a gyflwynir o dan is-adran (3) wrth benderfynu ar y trefniadau at y dyfodol sydd i'w gwneud o dan yr is-adran honno.

14. Mae adran 55C yn darparu:

- bod rhaid i'r awdurdod roi sylw, wrth baratoi a chyhoeddi datganiad o dan adran 55A(2), i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru (is-adran (1))

- y caiff Gweinidogion Cymru, o dan adran 55A(2), drwy orchymyn, ddiwygio unrhyw rai o'r diffiniadau a gynhwysir yn adran 55A(3). Mae'r pŵer i wneud gorchymyn o'r fath i fod yn arferadwy drwy offeryn statudol, y mae'n rhaid i ddrafft ohono gael ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo cyn iddo gael ei wneud (y weithdrefn gadarnhaol) (is-adrannau (3) a (4)).

**Adran 2 – enw byr a chychwyn**

15. Mae adran 2 yn ymdrin â'r enw byr a'r cychwyn. Daw'r Mesur i rym ar y diwrnod y caiff ei gymeradwyo gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor ac eithrio na fydd y ddyletswydd i baratoi datganiad o dan adran 55A(2) yn gymwys mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol y daw'r Mesur i rym ynddi.

**Atodiad 1: Rhestr o'r Ymatebwyr i'r Ymarfer Ymgynghori**

Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro er Menter a Datblygu (PLANED)

Cyngor Bro Morgannwg

Gwasanaethau Amgylcheddol Veolia

Cyngor Sir Powys

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)

Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP)

Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru

Asiantaeth yr Amgylchedd, Cymru

Novelis Recycling

Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraffoedd (CIWM)

## Atodiad 2: Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymarfer Ymgynghori

### Y cwestiynau ymgynghori

1. Ydych chi'n credu y bydd y Mesur arfaethedig yn cyflawni'r nod dymunol o sicrhau bod y ffordd mae awdurdodau lleol Cymru yn ymdrin â deunydd ailgylchu yn fwy eglur ac agored?

2. Ydych chi'n credu mai'r Mesur arfaethedig yw'r ffordd orau o sicrhau bod y ffordd mae awdurdodau lleol Cymru yn ymdrin â deunydd ailgylchu yn fwy eglur ac agored? Os nad ydych chi'n credu hyn, pa ddulliau eraill y dylid eu defnyddio?

3. A ellid cynnwys pwerau ychwanegol yn y Mesur i hyrwyddo'r dull hwn ymhellach mewn awdurdodau lleol?

4. Ydych chi'n credu y byddai gweithredu'r Mesur arfaethedig yn sbarduno trigolion i annog awdurdodau lleol i ddefnyddio cyfleusterau ailgylchu sy'n agosach i darddle'r deunydd ailgylchu, na'r rhai sydd ymhellach i ffwrdd? Ydych chi'n cytuno y bydd cyhoeddi'r wybodaeth ofynnol yn creu mwy o ddiddordeb, ac felly cyfranogiad, mewn ailgylchu?

5. Pa ganlyniadau anfwriadol, os o gwbl, allai godi o weithredu'r Mesur arfaethedig?

6. Beth ydych chi'n amcangyfrif fydd costau cydymffurfio â'r Mesur arfaethedig i'ch sefydliad? Ydych chi'n credu bod y costau hyn yn rhy uchel?

### Yr Ymatebion Ymgynghori

Roedd chwech o'r ymatebwyr yn gwrthwynebu'r Mesur yn ei ffurf gyfredol. Roedd tri ymatebydd o'i blaid, er mai 'o ran egwyddor' yr oedd un ohonyn nhw o'i blaid.

### Materion penodol a godwyd:

<u>Asiantaeth yr Amgylchedd, Cymru</u>

Rhoddodd Asiantaeth yr Amgylchedd, Cymru (EAW) groeso i'r Mesur arfaethedig. Awgrymodd yr Asiantaeth y gallai WasteDataFlow (sy'n cael ei weithredu gan yr Asiantaeth) gael ei addasu i'w ddefnyddio fel y dull ar gyfer casglu'r data y byddai ei angen er mwyn ateb nodau'r Mesur arfaethedig. Awgrymodd yr Asiantaeth fod y data angenrheidiol yn mynd y tu hwnt i'r gofynion yn y ddeddfwriaeth gyfredol, ac y gallai fod yn anodd ei sicrhau:

> "Some local authorities already provide data on the final destination of materials via the WasteDataFlow system, giving us some information about waste exported for reprocessing. However, many local authorities are currently unable to provide this information as the recyclate passes through a number of hands between collection and

> the final destination. It is important to note that clear guidelines will be needed on how the information should be gathered to ensure consistency and quality. The proposed Measure makes amendments to the Environmental Protection Act 1990, but not to secondary regulations which provide the current mechanisms for tracking waste movements. Therefore, consideration needs to be given to assessing options for further regulatory changes and also opportunities for local authorities to obtain this information via procurement routes".

Does dim dyletswydd ar allforwyr i roi gwybod i'r awdurdodau lleol am gyrchnod gwastraff, na gofyniad ar y sefydliad sy'n hysbysu'r allforion i anfon cofnodion yn ôl at gychwynnwr y gwastraff:

> "To enable Local Authorities to obtain this information via the Transfrontier Shipments of Waste Regulations would require legislative change at the European level, which could be a resource intensive and lengthy process. Without this legislative change, the requirement for local authorities to collect and report this information is not backed by any national/international legislation. Local authorities could require this information from their waste management contractors under the terms of their procurement contract, but they may ultimately find this information difficult to obtain from their contractors for the very same reasons".

Am fod deunydd ailgylchu yn cael ei grynhoi mewn swmp i'w gludo o nifer o ffynonellau gwahanol, nododd yr Asiantaeth ei bod bron yn amhosibl olrhain gwastraff o awdurdod lleol penodol i gyrchnod penodol (yn y DU neu dros y môr).

Argymhellodd yr Asiantaeth y gallai safonau symlach ar gyfer deunydd ailgylchu gael eu cynhyrchu er mwyn ei gwneud yn haws i bawb benderfynu a yw'r safon yn ddigon uchel ar gyfer gwaith adfer.

Ni fyddai'r Asiantaeth am atal gwaith i adfer deunyddiau dros y môr os dyna'r dewis gorau o safbwynt yr amgylchedd, ac roedd yn credu bod dadansoddiadau o gylchoedd oes yn ddefnyddiol i ddarparu gwybodaeth o'r fath.

Dywedodd yr Asiantaeth fod y cyhoedd yn anfodlon derbyn cyfleusterau ailbrosesu gwastraff yn lleol, ond y gallai darparu mwy o wybodaeth helpu i annog pobl i dderbyn bod angen rhagor o gyfleusterau ailgylchu lleol.

Nododd yr Asiantaeth rywfaint o bryder y gallai cyhoeddusrwydd negyddol yn y cyfryngau am gamreoli gwastraff yr arfaethir ei allforio beri i'r cyhoedd roi'r gorau i ailgylchu.

Roedd yr Asiantaeth o'r farn nad marchnadoedd lleol ar gyfer deunydd ailgylchu fyddai bob amser yn rhoi'r pris gorau i'r awdurdodau lleol, a byddai hynny'n dod â goblygiadau ar gyfer y gyllideb.

Novelis Recycling

Roedd Novelis Recycling (NR) o blaid y Mesur arfaethedig. Roedd eu hymateb yn cynnwys y rhybudd canlynol:

> "Finally, the proposed Measure needs to be prepared and responsive to the frequent and rapid market changes that might mean that recyclate is sold to multiple reprocessors during the course of any given year. Again it would be disappointing if the intent of the measure was lost because respondents were able to suggest that market conditions were such that multiple and continually changing outlets were used".

Gofynnodd NR hefyd am ddiffiniad clir o broseswyr (y rhai sy'n trafod, yn didoli ac yn byrnu deunydd ailgylchu), o'u cymharu â'r ailbroseswyr y mae eu rôl wedi'i diffinio yn Atodiad IIB i'r Gyfarwyddeb Fframwaith ar Wastraff.

PLANED

Roedd PLANED yn credu y byddai'r Mesur arfaethedig yn cyrraedd ei nodau, ar yr amod y byddai'n cael ei 'blismona' mewn modd effeithiol. Roedden nhw'n credu y dylai cyrchnodau deunydd ailgylchu a'i ddiben terfynol gael eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth hefyd. Roedd PLANED yn credu y dylai tystiolaeth gael ei rhoi gan yr awdurdodau lleol i ddangos eu bod wedi chwilio am yr ateb mwyaf cydnaws â'r amgylchedd a mwyaf cynaliadwy yn y tymor hir. Rhagwelid mai prif effaith anfwriadol y Mesur arfaethedig fyddai dod o hyd i awdurdodau lleol a oedd yn perfformio'n wael.

Gwasanaethau Amgylcheddol Veolia

Roedd Gwasanaethau Amgylcheddol Veolia (VES) o blaid y Mesur arfaethedig o ran egwyddor. Doedd VES ddim yn sicr a fwriedid i'r mesur arfaethedig gyfyngu ar allforion i Loegr a chyfandir Ewrop. Doedd VES ddim yn credu y byddai swm y gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru yn ddigon i gyfiawnhau cyfleusterau lleol.

Awgrymodd VES y gallai'r Mesur arfaethedig atal pobl rhag ailgylchu pe na baen nhw'n deall deinameg gymhleth y farchnad, ac y byddai elfennau penodol yn y cyfryngau yn defnyddio gwybodaeth i gorddi pryderon y cyhoedd, gan arwain at bwysau ar wleidyddion i beidio ag allforio gwastraff, gan effeithio yn y pen draw ar y costau a'r buddion.

Gan fod y farchnad ar gyfer deunydd ailgylchu yn dibynnu ar brisiau yn y fan a'r lle ac ar y cludiant sydd ar gael, dywedodd VES y byddai'n anodd iawn rhoi gwybodaeth briodol i bawb am gyrchnodau'r deunyddiau.

Roedd VES o'r farn y dylai'r Mesur arfaethedig gael ei ehangu y tu hwnt i fyd gwastraff trefol.

Cyngor Sir Powys

Daeth ymateb Cyngor Sir Powys oddi wrth y swyddog a oedd yn gyfrifol am reoli gwastraff, sydd hefyd yn Gadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol Ailgylchu'r Awdurdodau Lleol. Doedd Cyngor Sir Powys ddim yn credu bod y Mesur arfaethedig yn helpu i wella tryloywder ac i fod yn agored; gan awgrymu bod digon o wybodaeth eisoes ar gael yn y ffurflenni yn y system Waste Data Flow (WDF) i sicrhau bod gweithgareddau ailgylchu'r awdurdodau lleol yn agored i waith craffu. Gan hynny, roedd y cyngor yn credu bod y Mesur arfaethedig yn dyblygu swyddogaethau WDF.

Credai'r cyngor y gallai gwelliannau yn y system gyfredol gael eu sicrhau drwy ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau, masnachwyr ac ailbroseswyr gwastraff gyflwyno ffurflenni bob chwarter i'r awdurdodau lleol ynghylch cyrchnod terfynol gwastraff i'w ailgylchu. Haerai'r cyngor fod cwmnïau gwastraff wedi bod yn anfodlon rhoi'r wybodaeth hon i'r awdurdodau lleol, gan gyfeirio at sensitifrwydd masnachol, a bod Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cadarnhau'r anfodlonrwydd hwn:

> "Any current lack of information results mainly from unwillingness of the private waste industry to supply local authorities with the information it routinely requests. Therefore the focus of any such measure should be aimed at clearing this blockage as opposed to placing more burdens on local authorities".

Oherwydd hyn roedd y cyngor o'r farn y dylai'r Mesur arfaethedig gael ei newid i'w gwneud yn ofynnol i ddiwydiant preifat roi'r wybodaeth - pe bai'n ofynnol i gwmnïau preifat gydymffurfio, yna byddai'r cyngor yn derbyn gofyniad ar y cyngor i gyflwyno gwybodaeth drwy gyfrwng WDF.

Roedd Cyngor Sir Powys yn credu y byddai'r dull ar gyfer darparu gwybodaeth - fel y mae wedi'i gynnig ar hyn o bryd - yn rhy syml, ac y gallai niweidio argraff y cyhoedd o ailgylchu. Yn benodol, roedd ar y cyngor ofn y gallai sylw negyddol yn y cyfryngau i gyrchnodau terfynol gwastraff leihau'r niferoedd a fyddai'n cymryd rhan mewn ailgylchu, oni bai bod gwaith helaeth i godi ymwybyddiaeth yn cyd-fynd ag ef. Byddai gwaith codi ymwybyddiaeth o'r fath yn arbennig o fuddiol pe bai'n arwain at lai o wrthwynebiadau i adeiladu cyfleusterau ailbrosesu lleol sy'n bwysig o ran trin gwastraff yn nes at ei ffynhonnell.

Roedd Cyngor Sir Powys yn credu y gallai rhai awdurdodau lleol ei chael yn anos cyrraedd targedau'r Gyfarwyddeb Tirlenwi pe baen nhw'n gohirio penderfyniadau ar ailgylchu er mwyn ceisio dod o hyd i farchnadoedd mwy lleol ar gyfer ailgylchu (sef marchnadoedd nad oedden nhw'n bodoli o bosibl).

Roedd Cyngor Sir Powys yn credu y byddai costau ychwanegol yn codi yn sgil y Mesur arfaethedig, o ganlyniad i weinyddu'r gofynion newydd, heb fudd cyfatebol.

Cyngor Sir Bro Morgannwg

Roedd Cyngor Sir Bro Morgannwg o'r farn bod y Mesur arfaethedig wedi colli cyfle arwyddocaol i gynnwys mesurau i'w gwneud yn ofynnol i fusnesau ddarparu ffurflenni data ailgylchu ar gyfer Asiantaeth yr Amgylchedd, fel y mae Gweithrediaeth yr Alban wedi'i gynnig ar gyfer yr Alban. Roedd y cyngor yn amau hefyd nad oedd angen y Mesur arfaethedig gan y dylai'r manylion angenrheidiol fod ar gael eisoes yng nghronfa ddata'r Cynulliad ei hun ar gyfer Gwastraff Trefol. Oherwydd hyn, roedd yna bryder ynghylch dyblygu ymdrechion:

> "Surely it would be easier for the Assembly to use this information and publicise it directly as it does with local authority recycling/composting and landfill allowance performance… the use of the Wastedataflow database… would eliminate any element of wasteful duplication of effort and resources between local authorities and the EA whilst providing the outcome required in the proposed Measure".

Roedd y cyngor yn credu y gallai sylw negyddol yn y cyfryngau i amodau ailbrosesu mewn gwledydd tramor arwain at lai o gyfraniad at ailgylchu gan ddeiliaid tai, ac y gallai pwysau ar yr awdurdodau lleol i ddefnyddio cyfleusterau mwy lleol arwain at gynnydd yn y dreth gyngor.

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Roedd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) sawl pryder am y Mesur arfaethedig:

- y gallai Cymru fynd yn anghystadleuol, ac y gallai awdurdodau lleol Cymru ddioddef o ganlyniad i hynny. Doedd y Gymdeithas ddim yn sicr a fyddai ailbroseswyr heblaw'r rhai lleol yn cadw draw o Gymru, ac y byddai hynny'n peri bod Cymru'n anghystadleuol. Theori'r Gymdeithas oedd y ceid prisiau is am ddeunydd ailgylchu heb y cynnydd hwn yn y cystadlu am adnoddau - yn enwedig felly pe bai'r ailbroseswyr lleol yn manteisio ar ofynion bod rhaid i awdurdodau lleol ddefnyddio cyfleusterau lleol - ac y gallai hynny greu canlyniadau ar gyfer cyflwyno gwasanaethau.

  > "The measure seems to imply that LAs do not look for local markets – this is not true. All LAs have a duty to promote the social, environmental and economic well being of their areas and this activity if part of this. There are a lot of reprocessors in Wales and if material is being taken elsewhere it is for a reason".

- y byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol Cymru gyhoeddi gwybodaeth, ond heb bwerau i fynnu'r wybodaeth oddi wrth gwmnïau preifat, y gallai'r awdurdodau gael eu beirniadu'n annheg:

  > "For example LAs can provide the information as requested but still have no power should the broker/reprocessor handle the waste in an inappropriate way or refuse to provide the information. The Environment Agency is the regulatory

authority for all waste activity and we are concerned that there has been no examination of their role or processes through the development of this measure".

- Roedd y Gymdeithas yn gofidio hefyd y gallai enw da'r awdurdodau lleol gael ei niweidio pe gwelid wedyn fod gwybodaeth a roddwyd iddyn nhw gan drydydd partïon yn anwir. Mewn achosion o'r fath, roedd y Gymdeithas yn gofidio y byddai hyder y cyhoedd yn cael ei danseilio, ac y byddai llai yn cymryd rhan mewn ailgylchu.

- Y dylai pob ffrwd wastraff yng Nghymru gael ei chynnwys, ac nid gwastraff trefol yn unig. Roedd y Gymdeithas yn credu y dylai pob gwastraff ddilyn yr un rheolau, ni waeth beth fyddai'r ffynhonnell. Honnai'r Gymdeithas y gallai llawer mwy gael ei gyflawni drwy ganolbwyntio ar yr holl wastraff sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru.

- Ei bod yn bosibl nad oes marchnadoedd a seilwaith lleol ar gael i ymdrin â'r deunydd ailgylchu sy'n codi.

- Y gallai'r gofyniad ynglŷn â gwybodaeth ddyblygu swyddogaethau sydd eisoes yn bod. Dywedodd y Gymdeithas fod Waste dataflow eisoes yn cynnwys llinell i'r awdurdodau lleol gyflwyno gwybodaeth am y marchnadoedd terfynol, os yw'r wybodaeth yn hysbys. Mae allbynnau Waste dataflow yn cael eu defnyddio mewn dau allbwn blynyddol: mewn adroddiad gan Asiantaeth yr Amgylchedd i Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac yn nangosyddion perfformiad Lywodraeth Cynulliad Cymru. Gofynnodd y Gymdeithas i un o'r dulliau hyn gael ei ddefnyddio ar gyfer adroddiadau yn hytrach na chreu proses newydd.

- Y byddai angen adnoddau ychwanegol er mwyn ateb dyheadau'r Mesur arfaethedig; pe bai un swyddog amser-llawn yn cael ei gyflogi i gyflawni'r dyletswyddau hyn ym mhob awdurdod lleol, mae'r Gymdeithas yn amcangyfrif y byddai hynny'n costio £700,000 i'r wlad. Roedd y Gymdeithas yn credu hefyd fod amseru'r Mesur yn amhriodol o gofio bod y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch Diogelu'r Amgylchedd a Rheoli Gwastraff yn yr arfaeth.

Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau

Doedd Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau ddim yn cefnogi'r Mesur arfaethedig. Roedd WRAP yn credu y gallai cyflwyno'r Mesur arfaethedig wneud niwed i'r niferoedd a oedd yn cymryd rhan mewn ailgylchu yng Nghymru, a hynny o ganlyniad i'r storïau negyddol tebygol yn y cyfryngau y byddai'r mesur yn eu cynhyrchu.

Roedd WRAP o'r farn y byddai costau biwrocrataidd y mesur arfaethedig yn "llawer uwch" nag a ragwelwyd.

Honnodd WRAP mai i wastraff yr arfaethir ei waredu yn unig, ac nid i ddeunydd ailgylchu, y mae egwyddorion agosrwydd a hunangynhaliaeth yn gymwys.

Dywedodd WRAP:

> "we think it far more likely that the measure, if enacted, would simply lead to a large volume of negative media stories about those authorities that export waste for recycling, and would consequently lead to a reduction in participation in recycling, as some members of the public get the mistaken impression that recycling abroad is "no good". In addition, those authorities "exposed" for exporting waste for recycling abroad may feel compelled to stop doing so. However, if no additional recycling infrastructure is made available, they may end up landfilling the waste that was previously being recycled abroad".

<u>Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraffoedd</u>

Roedd y Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraffoedd (CIWM) yn credu nad y Mesur arfaethedig yw'r cyfrwng priodol i sicrhau'r newidiadau a ddymunid:

> "If the Assembly has concerns over the effectives of the Duty of Care, opportunity should be taken of the current review of this legislation, its communication and any guidance or Code of Practise to go with it… CIWM believes that if local authorities make information available, as required under their Duty of Care, to their residents and commercial customers - this will encourage both interest and participation in recycling. The information should make clear to whom the waste is delivered and where, what process it is subjected to and what rejects / outputs that process has. It is unlikely that many authorities will be able to report on the destination and fate of their recyclable materials after passing through such a process".
>
> "Strict control over the quality and destination of exports of part or wholly re-processed "Green List" wastes should be through the Transfrontier Shipment Regulations requiring either lobbying for change through the EU or strengthening of the policing of the regulations through the Environment Agency".

Doedd y CIWM ddim yn credu ei bod yn rhesymol, nac yn bosibl bob amser, i'r awdurdodau lleol gyflwyno adroddiad archwilio cyflawn i olrhain trywydd deunydd ailgylchu:

> "Recyclables are operating in a rapidly changing market and therefore the destinations for reprocessing are constantly in flux".

Er y gallai'r mesur arfaethedig arwain trigolion i hybu safleoedd ailbrosesu mwy lleol, awgrymodd y CIWM na fyddai atebion agosach bob amser yn gyfystyr ag atebion gwell neu fwy cynaliadwy:

> "Life cycle assessment by WRAP has recently shown that bulk transport of recyclates by ship to distant markets is carbon-efficient, despite a frequent belief that local use

> must be more beneficial. It is therefore possible that information provided could be used to demand less sustainable solutions or to weaken a public engagement in separation and recycling that has taken a decade to develop to its current level. However, despite these possible unintended consequences CIWM still agrees that public engagement with recycling – at work and at home – will be supported through information being made available, as it should be, under the Duty of Care".

Roedd yn well gan y CIWM weld data manwl-gywir ar bob ffrwd wastraff, gan gynnwys gwastraff o ffynonellau diwydiannol a masnachol.

Roedd y CIWM yn credu y gallai darparu mwy o wybodaeth arwain at fanteision economaidd:

> "Collection and reporting of timely and reliable material/energy flow information would require additional resources to be made available, but this should be viewed as part of a much larger and more important consideration of wastes as resources and an economic advantage for a region. Whilst this will need more input resources the return in economic advantage will substantially outweigh the investment to all sectors".

Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru

Er y byddai'r Mesur arfaethedig yn sicrhau bod mwy o wybodaeth ar gael yn gyhoeddus, roedd Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru (WESA) o'r farn bod ganddyn nhw:

> "serious reservations about the practical implications of the proposed Measure and the administrative burden it could place on Welsh local authorities… In particular the requirement to establish the exact proportion of exported material that is recovered (sub-clause 1 (5) (d)) would be an onerous requirement, as once ownership of the material has passed to the reprocessor (e.g. the paper mill), it is under no obligation to provide information on how the material is used in its facility".

Roedd WESA o'r farn y byddai ei gwneud yn ofynnol i Gyfleusterau Adfer Deunyddiau gofrestru gyda'r cod gwirfoddol "Gwasanaeth Cofrestru Ailgylchu", sy'n dangos bod deunydd gwastraff mewn cyfleuster yn cael ei drafod yn unol ag arferion da y diwydiant yn well ffordd i gyrraedd nodau'r Mesur arfaethedig.